

Gwasanaeth ysgol

Mae pawb angen lle diogel



Deunyddiau

- Cloch
- Cyflwyniad PwyntPwer 'Lle Diogel' (ar gael i'w lawr lwytho o caweek.org/resources) - neu os nad ydych am ddefnyddio'r cyflwyniad, llun o dŷ wedi ei fomio.

Dangoswch y sleid gyntaf.

Gofynnwch i'r disgyblion i gau eu llygaid. Eglurwch eich bod am arwain myfyrdod byr.

Script y myfyrdod

Cadwch eich llygaid ar gau a'ch dychymyg ymlaen. Rydym am ruthro trwy weddill y dydd. Rhuthro trwy'r prynhawn. Rydym am basio heibio'r pethau hynny y byddech yn eu gwneud ar ôl yr ysgol, ac, yn ein meddyliau, rydym am fynd adref. Rydw i am ichi ddychmygu go iawn eich bod ar eich taith adref. Cadwch eich llygaid ar gau a dychmygwch sut y byddwch yn cyrraedd eich cartref yn nes ymlaen heddiw. Fyddwch chi mewn car neu ar feic? Fyddwch chi'n cerdded? Sut bynnag y teithiwch chi, dychmygwch eich bod ar y daith honno rŵan.

Ewch i lawr eich ffordd chi. Cewch stopio a chodi llaw ar eich cymdogion neis. Ewch tuag at eich tŷ. Rydw i am ichi ddychmygu eich drws ffrynt. Pa liw ydyw? Sut un ydi'r handlen drws? Curwch ar y drws rŵan, neu canwch y gloch, beth bynnag y byddwch yn ei wneud fel arfer. Rŵan, dychmygwch wyneb y person fydd yn agor y drws ichi. Dychmygwch yr olwg ar eu hwyneb wrth iddynt eich cyfarch ar ôl diwrnod prysur yn yr ysgol. Ewch trwy'r drws ac i mewn i'r tŷ. Aaaah. Adref. Rhowch eich bag i lawr. Anadlwch yn ddwfn. Beth yw'r arogl? Oes gennych chi anifeiliaid anwes? Allwch chi eu harogli rŵan? Neu efallai arogl hyfryd y bwyd sy'n cael ei goginio? Neu jest arogl arferol eich cartref? Rhedwch eich bysedd ar hyd y muriau wrth ichi gerdded trwy'r tŷ. Teimlwch y cadernid sydd iddynt wrth iddynt eich cadw'n ddiogel. Arhoswch am eiliad a gwrando ar synau eich cartref. Allwch chi glywed y sŵn rhyfedd y mae'r rhewgell yn ei wneud weithiau? A sŵn eich teulu'n siarad wrth wyllo'r teledu? Efallai bod rhywun yn cael dadl yn rhywle? Neu efallai ei bod yn ddistaw braf yno?

Canwch y gloch

Dywedwch wrth y disgyblion am agor eu llygaid a dangoswch sleid 1 iddynt (neu lun o dŷ wedi ei fomio).

Rydw i'n dyfalu nad oedd gan yr un ohonoch chi lun fel hyn yn eich dychymyg. Doedd gen i ddim. Mewn eiliad, rydw i am ddweud wrthyh chi be ddigwyddodd yma.

Onid yn gyntaf dywedwch chi wrtha i am eich cartref chi a'r hyn oedd yn eich meddwl.

Gofynnwch i rai o'r disgyblion ddisgrifio be welsant, glywsant ac yn y blaen. Os ydynt yn amharod i gychwyn y sgwrs efallai y gallech chi gychwyn y broses eich hun a rhannu am eich cartref a sut mae'n teimlo i chi.

Dangoswch sleid 2. Mae'n anodd credu'r peth, ond ar un adeg roedd y cartrefi yn y llun hwn yn debyg i'ch cartrefi chi. Roedd y bobl oedd yn byw yno yn mwynhau bywyd hapus a heddychol. Roeddent yn byw yn debyg iawn i ni a bywyd yn llawn hwyl ac weithiau, adegau trist. Bywyd arferol - ysgol, gwaith, chwarae, ffrindiau, prydau bwyd. Pan oeddent yn mynd adra ar ddiwedd diwrnod prysur, roeddent yn teimlo'n debyg iawn i chi'n mynd adra. Roeddent yn edrych ymlaen at gael agor drws y ffrynt a chael cwmni eu teulu dros bryd bwyd. Byddent wedi cerdded i fyny'r ffordd, codi llaw ar eu cymdogion.

Byddent wedi mwynhau amser hyfryd yn nhawelwch eu cartref - ac ambell i ddadl hefyd! Ond yna daeth rhyfel i'w gwlad a stopiodd eu hardal hwy a bod yn le diogel. Dros amser, mae sawl rhan o'r wlad - a nifer fawr o gartrefi pobl - wedi ei dinistrio gan yr ymladd. Syria ydi enw'r wlad ac mae yn un o'r sawl lle sydd yn dioddef rhyfel ac anghydfod.

Ydach chi'n meddwl y gallech chi fyw mewn tŷ fel hwn? Wel, allai neb wneud hynny. Pan fo rhyfel, gallai fod yn beryglus iawn ar y strydoedd, ond yn fwy peryglus byth i fod gartref. Felly, pan fo rhyfel yn cyrraedd gwlad, mae nifer o bobl yn gadael.

Dangoswch sleid 3. Gofynnwch i'r disgyblion a wyddant beth yw'r enw a roddir i bobl sy wedi rhedeg i ffwrdd o ryfel. Yr ateb yw: ffoaduriaid.

Trwy gydol hanes, mae yna ffoaduriaid wedi bodoli. Yn hanes pob man mae yna storïau o bobl yn ymladd ac o bobl yn cyrraedd ac yn gadael.

Mae'n anodd dychmygu heddiw, ond 75 mlynedd yn ôl, roedd ein gwlad ni mewn rhyfel. Golyga hynny bod neiniau a theidiau rhai ohonoch, ac yn sicr eich hen nain a thaid, wedi bod yn fyw yn ystod y rhyfel, pan oedd pobl ar draws Ewrop yn ymladd ei gilydd.

Enw'r rhyfel honno ydi'r Ail Ryfel Byd. Lladdwyd miliynau o bobl yr adeg honno, a daeth miliynau mwy yn ffoaduriaid ar draws Ewrop, yn chwilio am le diogel i fyw.

Dangoswch sleid 4. Sefydlwyd yr elusen Cymorth Cristnogol gan eglwysi oedd am helpu ffoaduriaid yn yr Ail Ryfel Byd. Roeddent yn gweld fod llawer o bobl angen help; pobl oedd wedi eu gorfodi allan o'u cartrefi a gadael eu heiddo a'u ffrindiau ar ôl. Roeddent yn gweld pa mor anodd oedd cychwyn eto, a bod y bobl oedd yn cyrraedd yn drist ac yn ofnus.



Dangoswch sleid 5. Sefydlodd yr eglwysi Cymorth Cristnogol oherwydd eu bod yn dilyn esiampl Iesu, a ddywedodd, 'Roeddwn yn llwglyd a rhoesoch rywbeth i'w fwyta imi, roeddwn yn sychedig a rhoesoch rywbeth i'w yfed imi, roeddwn yn ddieithryn ac fe wnaethoch fy ngwahodd i mewn.'

Mae Cristnogion yn credu y dylid trin pawb efo caredigrwydd a chariad – yn cynnwys pobl nad ydynt yn eu hadnabod. Felly daethant at ei gilydd i helpu ffoaduriaid yr Ail Ryfel Byd. Wrth gwrs, nid hwy oedd yr unig rai i wneud hyn; gwelodd llawer o bobl yr angen ac ymuno gyda'i gilydd i'w ateb.

Dangoswch sleid 6. Daeth yr Ail Ryfel Byd i ben yn 1945. Ond mae Cymorth Cristnogol wedi parhau a'i waith byth ers hynny. Heddiw mae yna anghydfodau newydd yn y byd ac mae pobl yn symud.

Dangoswch sleid 7. Maent yn ffoi rhag trais ac ymladd ac yn chwilio am le diogel i fyw. Ac y mae Cymorth Cristnogol yn dal i weithredu ar sail y neges hon o'r Beibl: y dylem drin pawb yn dda ac y dylid rhoi croeso a gofal i bobl sy mewn angen.

Dangoswch sleid 8. Mae bywyd yn anodd iawn i ffoaduriaid ac weithiau does dim croeso iddynt yn rhai o'r gwledydd y maent yn eu cyrraedd. Mae llawer o storïau yn cael eu dweud am ffoaduriaid - rhai ohonynt yn wir, rhai sy ddim. Felly mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn siarad â rhai o'r ffoaduriaid eu hunain er mwyn clywed eu hanes. Fe wnafrannu un o'r storïau hyn efo chi.

Dangoswch sleid 9. O Affganistan y daw Faraidoon. Fe ddaeth staff Cymorth Cristnogol ar ei draws ef a'i frawd mewn gwersyll ffoaduriaid yng Ngroeg. Roeddent wedi bod yn gaeth yno am chwe mis.

Dywedodd Faraidoon wrth Cymorth Cristnogol, 'Does gen i ddim syniad ble mae fy rhieni, os ydynt yn ddiogel

neu'n fyw. Dwi ddim yn gwybod os gwnaethant allu rhedeg i ffwrdd, neu gael allan o'r wlad. Roedd yna fomiau pob un munud. Pob dydd - pob dydd - roedd yna ryfel. Fe gymerodd hi dair awr inni groesi'r môr. Hen gwch ydoedd. Wedi ei gwneud efo plastig. Roedd yna lawer o donnau uchel a doedden ni ddim yn gallu nofio. Yn y nos, disgynnodd fy mrawd i'r dŵr. Fe fu bron iddo farw. Fe wnes afael yn ei law a'i achub. Mae fy mrawd a fi am gael teithio ymhellach. Tydan ni ddim am aros yma [yn y gwersyll]. Rydw i wedi blino. Rydw i isio dyfodol ac am gael gweithio. Mae'n anodd iawn meddwl am y dyfodol, ond rhaid inni fod yn obeithiol. Nid jest dim ond amdana i y mae hyn. Mae pob un person sy yma yn gobeithio y bydd y ffiniau ar agor rhyw ddydd ac y bydd pawb yn gallu symud ymlaen. Mae pob person yn caru ei wlad, a dwi'n caru fy un i hefyd. Fyddwn i ddim wedi dod yma heblaw am y rhyfel.'

Dangoswch sleid 10. Mae Cymorth Cristnogol wedi cael ei gyffwrdd gan storïau pobl fel Faraidoon. Mae'r elusen yn helpu pobl debyg iddo fo wrth iddynt wneud teithiau anodd neu gael yn sownd mewn gwersyll ffoaduriaid, trwy roi'r hyn sydd ei angen arnynt i bara'n fyw. Ac y mae hefyd yn gofyn i bawb, ym mhob man, i fod yn garedig efo ffoaduriaid. Mae Cymorth Cristnogol yn credu fod pawb yn haeddu lle diogel.

Gallwch orffen y gwasanaeth trwy ddweud wrth y disgyblion am unrhyw weithgaredd sydd gan yr ysgol i helpu ffoaduriaid.

Am awgrymiadau, os gwelwch yn dda edrychwch ar gefn y Gêm Fwrdd Lle Diogel.

Allai eich ysgol chi godi arian i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol?

£5

gallai brynu dau bryd maethlon i ffoadur yn Ewrop

£50

gallai brynu stôf i ffoaduriaid allu coginio eu bwyd eu hunain

£285

gallai brynu rhewgelloedd ar gyfer cegin gymunedol mewn gwersyll ffoaduriaid